

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun y 13eg o Fawrth 2024 am 8.40yh yng Nghanolfan Gymunedol Alma.

Cynghorwyr yn bresennol: Andrew Jones (Cadeirydd), Alyson Harries, John Phillips, Ambrose Lewis, Eirian Howells, Dyfed Davies, Derrick Harries & Awryn Jones.

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Ann Sillars, Linda Davies ac y Cynghorydd Sir Jean Lewis
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Diolchodd Andrew Jones i bawb am fynychu.
3. **Datgan Buddiannau:**
Ni nodwyd unrhyw datgan budd.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 4ydd o Fawrth 2024 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.
5. **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**
 - Roedd y Cynghorydd Linda Dvaies wedi derbyn ei henwebiad I fod yn gynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Hafodwenog.
 - Nid oedd y clerc wedi derbyn ymateb i gais i Gyngor Sir Caerfyrddin am gadarnhad pwy oedd a chyfrifoldeb dros y ffens aoedd yn goleddu tua'r heol ger Bronllan. Roedd gwybodaeth wedi dod i law yn nodi mae y Cyngor Sir oedd wedi codi'r ffens.
 - Gan fod y clerc wedi cael gwybodaeth gan y Cyngor Sir ar sut i barhau gyda'r heol i Rhoscrugebolion hiebio Lleine, byddai'n dechrau ar y gwaith yn fuan.
 - Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi diweddariad ar y gwaith arfaethedig yn Clynfelyn. Oherwydd y gost, roeddent yn argymhell naill ai adeiladu llwybr pontio neu arallgyfeirio'r llwybr. Eu dewis cyntaf oedd arallgyfeirio ac roeddent mewn trafodaethau gyda'r perchenog tir i wneud hyn.

6. Gohebiaeth

a. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi danfon yr anfoneb blynyddol am gost trdan a cynnal a chadw y goleuadau stryd. Cytunwyd i dalu'r anfoneb o £843.71.

b. Awdurdodwyd adnewyddu aeolodaeth Un Llais Cymru am £130.

c. Roedd ebyst parthed heolydd ar gau wedi cael eu danfon ymlaen i'r Cynghorwyr.

Ch. Roedd yr Archwilydd mewnol D M B Davies wedi danfon anfoneb am £384 am archwiliad y cyfrifon am y flwyddyn 2023-2024. Cytunwyd i'w dalu.

7. Ceisiadau Cynllunio

PL/07699 – Cais i Ail-fodelu ffermdy (yn dilyn gwrthod y gwreiddiol)@ Pantyberth, Trelech, SA33 6RX

8. Cyllid - Cyfrif Busnes Cyfredol £1128.63

9. Unrhyw Fater Arall

- Nododd y clerc ei rhwystredigaeth nad oedd yn derbyn ymatebion wrth Cyngor Sir Caerfyrddin wedi iddi eu ebostio parthed priffyrdd, cynllunio ayyb. Cytunodd y Cynghorwyr dylau'r pryder cael ei godi gyda'r Cyngor Sir a gyda Un Llais Cymu.

- Nododd y Cadeirydd llwyddiant Clwb Ffermwyr Ifanc Penybont yn Rali'r Sir yn ddiweddar, roedd y tîm Hŷn wedi dod yn gyntaf ac y tîm Iau wedi dod yn drydydd. Byddai nodyn llongyfarch yn cael ei ddanfôn.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 9.30yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 1af o Orffennaf 2024.